
## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 ac i ddyblu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen* ac yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol o dan Safonau'r Gymraeg i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i *Cymraeg 2050*:



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os yw'n bosibl y gallai eich polisi gael effaith ar bobl, bydd yn cael rhyw fath o effaith ar siaradwyr Cymraeg ac ar y Gymraeg.

1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):

   03/03/2022

2. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – *Cymraeg 2050, miliwn o siaradwyr a'r* Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021 ?

Mae **Safonau'r Gymraeg** yn gyfres o ofynion sy'n rhwymo mewn cyfraith ac sy'n gymwys i Lywodraeth Cymru. O dan y Safonau, rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r safonau llunio polisi o dan Ran 4 adran 29 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau bod ein proses o lunio polisïau yn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer llesiant y Gymraeg a defnyddwyr yr iaith. Maen nhw'n gofyn i ni wneud tri pheth:

- ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi mewn perthynas â'r Gymraeg (cadarnhaol a negyddol);
- ystyried sut i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, lliniaru neu leihau'r effeithiau andwyol a manteisio ar bob cyfle i hybu'r defnydd o'r Gymraeg;
- ceisio sylwadau ar yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori, a cheisio barn siaradwyr Cymraeg a'r sawl sy'n defnyddio'r iaith.

Mae'r tri mater hyn wedi'u hystyried ar gyfer yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg ar y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio a'i Chynllun Cyflawni.

Y Cyd-destun

Comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad "Meincnodi sefyllfa pobl hŷn yng Nghymru" 2021 a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR) ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae'r adroddiad yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â'r Gymraeg sy'n dangos:

- Bod tua 20 y cant o oedolion hŷn yn gallu deall Cymraeg ac bod tua 15% yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

- Ymhlith yr oedolion hŷn hynny sy'n siarad Cymraeg, mae'n well gan tua thraean siarad Cymraeg, o gymharu â dros hanner y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r Saesneg.

- O'r oedolion hŷn sy'n siarad Cymraeg, dim ond 20 – 40% oedd wedi siarad Cymraeg yr wythnos flaenorol wrth ymweld â sefydliadau fel y swyddfa bost, y banc neu leoliad lletygarwch. Pan ofynnwyd pam, dywedodd 61% o'r ymatebwyr mai'r rheswm am hynny oedd nad oedd y staff yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r Gymraeg yn berthnasol ym mhob rhan o Gymru. Er y gallai'r ganran sy'n siarad Cymraeg fod yn uwch mewn ardaloedd Cymraeg mwy traddodiadol yn y gogledd a'r gorllewin, serch hynny mae niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn ninasoedd y de-ddwyrain. Mae'n werth hefyd nodi amrywiadau rhanbarthol o ran y canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg, er enghraifft, mae gan y Barri nifer fwy o siaradwyr Cymraeg na Phwllheli.

Mae dull sy'n seiliedig ar hawliau sy'n cynnwys y Gymraeg yn allweddol i'r Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio. Yn y Datganiad o Hawliau i Bobl Hŷn yng Nghymru, eglurir bod gan bobl hŷn yr hawl i ddefnyddio eu dewis iaith i gyfathrebu. Os yw siaradwyr Cymraeg yn dymuno ymgysylltu â staff iechyd, gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau gofal cymdeithasol yn Gymraeg, dylent allu gwneud hynny. Fel rhan o'r strategaeth rydym wedi diwygio'r canllawiau hawliau ar gyfer y cyhoedd a chyrff cyhoeddus. Mae'r canllawiau newydd yn cynnwys astudiaethau achos penodol sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg a byddant yn cael eu defnyddio yn yr ymgyrch sy'n cael ei chynnal ar ein rhan gan Age Cymru.

Ym mis Mawrth 2019, adroddodd StatsCymru fod tua 14,000 o staff awdurdodau lleol ym maes rheolaeth a chymorth canolog, gwaith cymdeithasol a gwasanaethau cartref yn gallu siarad Cymraeg. Mae hynny'n cefnogi canfyddiadau adroddiad Meincnodi Prifysgol Abertawe ac yn atgyfnerthu'r ffaith fod lle i wella o ran datblygu sgiliau Cymraeg staff sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru; boed hynny'n iechyd a gofal neu'n ymweld â bwyty. O dan Nod 1 y strategaeth, "Gwella llesiant pobl", mae ymrwymiad i'w gwneud yn haws i bobl gael mynediad at wasanaethau Cymraeg ar ba gam bynnag y maent yn eu taith gyda'r iaith. Mae hyn yn bwysig i bob gwasanaeth, ond hyd yn oed yn fwy felly ym maes iechyd a gofal gan y gall ansawdd y gofal i unigolion gael ei effeithio drwy beidio â chyfathrebu â nhw yn eu hiaith gyntaf. I lawer o bobl hŷn mae defnyddio eu Cymraeg yn fater o angen clinigol, yn enwedig y rhai sy'n dioddef o ddementia neu strôc, gan y gallent golli eu sgiliau Saesneg.

Mae'r cynllun cyflawni ategol sy'n rhoi ymrwymiadau i wireddu uchelgais y strategaeth yn addo cynyddu'r gwaith o hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol a chyflawni *Mwy na Geiriau*, fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Mae'r cynllun cyflawni hefyd yn ymrwymo i archwilio sut y gellir defnyddio gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau i helpu pobl iau a phobl hŷn i ennill neu wella eu sgiliau Cymraeg yn unol â'n polisi cenedlaethol ar drosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd.

Byddwn yn:

Dadansoddi sut rydym yn cyfathrebu â theuluoedd a'u haelodau estynedig (y tu hwnt i'r rhoddwyr gofal uniongyrchol) am eu defnydd o'r Gymraeg gyda'r nod o gynnal a chynyddu trosglwyddiad y Gymraeg.

Dadansoddi ymyriadau eraill yn seiliedig ar economeg ymddygiadol / seicoleg ymddygiadol / gwyddoniaeth neu fethodoleg addas arall i weld a oes gwersi i'w dysgu ar gyfer ein Rhaglen Trosglwyddo'r Iaith Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd.

**Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr** a'r **Rhaglen Waith 2017-2021** gysylltiedig yw strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn amlinellu dull hirdymor Llywodraeth Cymru o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er na chafodd y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio a'i Chynllun Cyflawni ategol eu cynllunio'n bennaf i helpu i gyflawni'r amcanion o dan Strategaeth Cymraeg 2050, bydd llawer o'i phrosiectau – os byddant yn llwyddiannus – yn cael effaith gadarnhaol. Er enghraifft, prosiectau pontio'r cenedlaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, mwy o gyfleoedd i gymdeithasu a gwirfoddoli drwy gyfrwng y Gymraeg, ac, yn y pen draw, cymunedau mwy cydlynol. Nod y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yw mabwysiadu dull cymesur o ymdrin â gofynion y Cynnig Rhagweithiol[1], o ran y Gymraeg, gan roi'r pwyslais ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol yn eich ateb i'r cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:**

- **cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**[2]

Gwyddom, yn hanesyddol, fod trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau wedi bod yn broblem mewn rhai ardaloedd ac nad yw rhai siaradwyr Cymraeg, am sawl rheswm, wedi trosglwyddo eu Cymraeg i'w plant. Felly byddwn yn ymchwilio i ddarganfod sut y gallwn ddefnyddio gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau i helpu pobl iau i feithrin neu wella eu sgiliau Cymraeg yn unol â'n polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnyddio mewn teuluoedd.

- **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?**
- **Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau**[3] **sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (ee iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)**

Yng Nghymru, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a safonau'r Gymraeg, yn darparu'r hawl i dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gymraeg beidio â chael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae angen i sefydliadau

[1] Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod mor weladwy â'r Saesneg.

[2] Gall y rhain fod yn gymunedau clos yng nghefn gwlad, mewn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn trefi ac mewn rhith-gymunedau nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan ddaearyddiaeth.

[3] Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

cyhoeddus hefyd ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Mwy na Geiriau...** yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Un o egwyddorion allweddol y fframwaith hwn yw'r Cynnig Rhagweithiol, sy'n golygu bod rhaid darparu gwasanaethau yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdanynt. Rydym wedi ymgorffori'r Cynnig Rhagweithiol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 drwyddi draw. Mae llesiant unigolyn, ei ddymuniadau a'i deimladau, a'i hawliau i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno wrth wraidd y Ddeddf hon. Mae ein Codau Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn amdano. Mae hynny'n golygu cynnwys hawliau wrth gynllunio a chyflawni. Mae safonau'r Gymraeg ar gyfer y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau yn cefnogi'r ymgyrch i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg yn y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddiweddaru'r canllawiau ar *Wneud i Hawliau Weithio i Bobl Hŷn*. Mae un fersiwn ar gyfer y cyhoedd ac mae'r ail ar gyfer darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n cynnwys adran ar y Gymraeg. Rydym yn comisiynu Age Cymru i fynd â'r gwaith hwn allan i'r gymuned yn y Flwyddyn Newydd er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl hŷn a'u darparwyr.

Mae'r Safonau Iaith Gymraeg statudol sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru yn creu'r fframwaith **rheoleiddiol** ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn**.**

Mae llawer o bobl sy'n agored i niwed, megis pobl hŷn sy'n dioddef o ddementia neu strôc, hefyd yn colli eu hail iaith ac efallai na fydd llawer ohonynt yn teimlo'n hyderus iawn i ofyn am wasanaethau yn Gymraeg. Mae darparu *Cynnig* Rhagweithiol yn rhan hanfodol o gefnogi unigolion o'r fath yn llwyddiannus.

Mae gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio gwasanaethau Cymraeg, pryd bynnag a ble bynnag y mae eu hangen arnynt, mewn ffordd sy'n addas i'w gallu yn y Gymraeg; creu a chynnal cyfleoedd i ddefnyddio ein hiaith a meithrin gallu o ran sgiliau Cymraeg yn ganolog i greu Cymru sy'n gyfeillgar i oedran a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod polisi iaith Gymraeg yn treiddio drwy bob agwedd ar weithrediad y strategaeth.

Ei gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad at wasanaethau Cymraeg a defnyddio eu Cymraeg ar ba gam bynnag y maent yn eu taith gyda'r iaith - rydym am greu amgylchedd lle bydd pawb eisiau defnyddio eu Cymraeg ac yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae hyn yn bwysig i bob gwasanaeth, ond hyd yn oed yn fwy felly ym maes iechyd a gofal gan y gall ansawdd y gofal gael ei effeithio drwy beidio â chyfathrebu â phobl yn eu hiaith gyntaf.

Byddwn yn gwella mynediad at wasanaethau ymhellach drwy gyhoeddi Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd i sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn casglu'r un data i ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd gofyn i awdurdodau lleol gasglu data ar

nifer yr asesiadau o anghenion gofal a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd tystiolaeth o'r Cynnig Rhagweithiol, gan nodi a dderbyniwyd y cynnig ac a gynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio dewis iaith yr unigolyn.

Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i adolygu a diweddaru'r fframwaith strategol. Disgwylir i'r drydedd fersiwn gael ei lansio ym mis Ebrill 2022.

- Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg? Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?

## Ymgynghori ac ymgysylltu

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni ofyn am sylwadau ar effeithiau'r Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori ar bolisi, ac i geisio barn siaradwyr Cymraeg a'r sawl sy'n defnyddio'r iaith.

<u>Ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg</u>

Mae'r Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio wedi'i chydgynhyrchu gyda phobl hŷn a'u cynrychiolwyr. Mae hyn yn golygu bod pobl hŷn wedi cyfrannu at greu'r ddogfen hon o'r cychwyn cyntaf - maent wedi llywio ei dyluniad a'i datblygiad ac yn y pen draw byddant yn rhan o'i chyflawni. Rhwng 2018 a 2019, gwnaethom ymgysylltu â dros 1000 o bobl hŷn mewn sgwrs am heneiddio drwy ymweld â grwpiau cenedlaethol a fforymau lleol ledled Cymru. Comisiynwyd Age Cymru i gynnal digwyddiadau ymgysylltu yn y Gogledd a'r De, yn gofyn i bobl hŷn '*beth sy'n bwysig i chi?*' Mynychodd swyddogion Llywodraeth Cymru y digwyddiadau ac fe'u cynhaliwyd ym mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020. Roedd y digwyddiadau'n cael eu hyrwyddo yn Gymraeg a Saesneg ac roedd cyfieithu ar y pryd ar gael yn y ddau. Yn y Gogledd, cafodd y digwyddiad ei arwain yn ddwyieithog gan Aled Jones o Age Cymru Gwynedd a Môn. Sicrhawyd hefyd bod hwyluswyr Cymraeg eu hiaith ar gael a chynhaliwyd dwy drafodaeth bord gron drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynlluniwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb pellach yn dilyn y trefniadau a amlinellwyd uchod, ond arweiniodd Covid-19 at eu canslo ac ataliwyd y gwaith ar y Strategaeth wrth i swyddogion ganolbwyntio ar yr angen uniongyrchol i ddiogelu bywyd. Yn lle cyfarfodydd wyneb yn wyneb, cynhaliodd Age Cymru arolwg o farn pobl hŷn ym mis Mehefin 2020 a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Trafodwyd y Strategaeth hefyd gyda swyddogion o bob awdurdod lleol yng Nghymru sy'n arwain ar bolisi pobl hŷn a'r gwaith o'i gyflawni. Teithiodd swyddogion ledled Cymru i gyfarfod â Rhwydweithiau Heneiddio'n Dda a fforymau pobl hŷn 50+ i sicrhau ein bod yn ymgysylltu ag amrywiaeth o gymunedau a siaradwyr Cymraeg.

Rhannwyd yr ymgysylltu a'r arolygon gydag aelodau Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio (MAFA), sydd â'r gorchwyl o gynrychioli llais pobl hŷn yng Nghymru ac sydd wedi arwain y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth. O dan nawdd MAFA, cynullwyd pum gweithgor i ganolbwyntio ar y meysydd allweddol yr oedd aelodau'n teimlo bod

yn rhaid i ni eu cael yn iawn wrth gynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio, sef trafnidiaeth; cymryd rhan; tai; gwneud hawliau'n real a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd aelodau'r gweithgorau'n cynnwys pobl hŷn, academyddion blaenllaw, a chynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat. Cynrychiolwyd y Comisiynydd Pobl Hŷn hefyd ar bob grŵp. Lluniodd pob gweithgor adroddiad a oedd yn sail i'r Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio.Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi pawb yng Nghymru i heneiddio'n dda wedi'i ddogfennu ar draws yr holl weithgorau – rhaid pwysleisio bod hyn yn ystyried pob person hŷn; p'un ai’r Gymraeg neu'r Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Ni chodwyd y Gymraeg fel pryder fel rhan o ymgysylltiad y gweithgor, ond nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae angen gwella ymwybyddiaeth o hawliau ymhlith pobl hŷn mewn iaith y maent yn ei deall;
- Mewn perthynas â hawliau dynol a lles, un o'r 7 nod llesiant o Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw "Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.
- Wrth sicrhau hawliau pobl hŷn mewn cartrefi gofal, mae eu hawl i gyfathrebu mewn iaith o'u dewis yn hanfodol.

- **Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**

Bydd data diweddaraf y Cyfrifiad ar gael yn 2022.

- **Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?**

Bydd ein hadroddiad, "Meincnodi sefyllfa pobl hŷn yng Nghymru" 2021, yn rhoi llinell sylfaen i ni ar gyfer monitro unrhyw welliannau yn y defnydd o'r Gymraeg wrth i ni gomisiynu diweddariadau pellach.